



Fforwm 50+ arolwg 12

Os oes gennych fynediad i'r Rhyngrwyd, helpwch ni drwy gwblhau'r arolwg ar-lein: www.sirgar50.org.uk..

1 Rhif aelodaeth

2 Yn dilyn 'SA' beth yw rif cyntaf eich côd post?

3 A ydych chi...?

- yn ddyn
 yn fenyw

4 Faint yw eich oed?

- 50-59
 60-69
 70-79
 80+

5 Ers pryd rydych chi wedi byw yn sir Gaerfyrddin?

- llai na blwyddyn
 1-5 mlynedd
 6-10 mlynedd
 11-15 mlynedd
 16-20 mlynedd
 dros 20 mlynedd

Diogelwch ar y Ffyrdd i Yrwyrr Hŷn

Mae'r Fforwm 50+ a Chyngor Sir Caerfyrddin yn ymroddedig i helpu pobl hŷn i barhau'n annibynnol ac yn actif yn eu cymunedau. Mae'n bwysig bod pobl yn parhau i deimlo eu bod yn gallu gyrru wrth heneiddio.

Yn ystod Tachwedd/Rhagfyr 2013, cyflwynodd y Cyngor gyrsiau Gloywi llwyddiannus iawn, am ddim, i Yrwyrr Hŷn. Roedd y cyrsiau hyn, ar gyfer aelodau'r Fforwm 50+, yn cynnwys gwybodaeth i helpu bobl i gadw'n ddiogel ar y ffyrdd, fel eu bod yn gallu parhau i yrru cyhyd â phosibl. Roedd y sesiynau hefyd yn cynnwys diweddariad ar Reolau'r Ffordd Fawr, a sesiwn ymarferol yng nghwmni hyfforddwr gyrru â chymwysterau llawn.

Mae llwyddiant y sesiynau wedi peri i ni ystyried sut gellir datblygu'r fenter ymhellach. Gofynnir i chi helpu trwy ateb y cwestiynau isod.

6 I ba raddau rydych chi'n cytuno y dylai pobl barhau i yrru cyhyd ag y gallant?

- cytuno'n bendant
- cytuno
- ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- anghytuno
- anghytuno'n bendant

7 Ydych chi'n gyrru cerbyd modur (car, fan, beic modur, etc)?

- ydw (ewch i gwestiwn 8)
- nac ydw (ewch i gwestiwn 10)

8 Os ydych, pa mor aml byddwch chi'n gyrru wrth fynd ar daith?

- pob taith
- y rhan fwyaf o deithiau
- rhai teithiau
- ambell waith

9 Os byddwch chi'n gyrru, ydych chi'n ceisio osgoi unrhyw un o'r canlynol? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- ffyrdd deuol neu draffyrdd
- ffyrdd prysur
- cylchfannau
- gyrru yn y nos
- rifyrsio/parcio
- arall - nodwch os gwelwch yn dda

Nawr ewch i gwestiwn 11

10 Os nad ydych chi'n gyrru cerbyd modur, beth yw'r rheswm am hynny? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- erioed wedi cael trwydded gyrru
- wedi ildio trwydded gyrru
- dewis defnyddio trafniadaeth gyhoeddus
- partner yn gyrru
- arall - nodwch os gwelwch yn dda

Nawr ewch i gwestiwn 16

11 Aethoch chi i un o'r sesiynau Gloywi i Yrwy'r Hŷn ym mis Tachwedd neu Ragfyr 2013?

- do (ewch i gwestiwn 12)
- naddo (ewch i gwestiwn 13)

12 Os do, dywedwch wrthym ni ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol, os gwelwch yn dda.

	cytuno	anghytuno
fe ges i fudd o'r cwrs	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

rwy'n fwy hyderus yn gyrru nawr	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
---------------------------------	-----------------------	-----------------------

Byddwn i'n argymhell y cwrs i eraill	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
--------------------------------------	-----------------------	-----------------------

Nawr ewch i gwestiwn 14

13 Os naddo, fyddai gennych chi ddiddordeb mewn mynychu sesiynau Gloywi i Yrwy'r Hŷn yn y dyfodol?

- byddai (ewch i gwestiwn 14)
- na fyddai (ewch i gwestiwn 16)

14 O gofio bod y cwrs yn cynnwys sesiwn ymarferol gyda hyfforddwr gyrru cymwys, pecyn diogelwch i yrwy'r a chopi o Reolau cyfredol y Ffordd Fawr, fyddech chi'n barod i gyfrannu at gost ei fynychu?

- byddwn - £10
- byddwn - £20
- byddwn - £30
- na - fyddwn i ddim yn barod i gyfrannu at y gost

15 Mae'r cwrs Gloywi i Yrwy'r Hŷn yn trafod rhai materion cyffredinol defnyddiol. Pa rai o'r materion canlynol, mwy penodol, fyddai o ddiddordeb i chi?

- diogelwch yn y car (gan gynnwys teithio diogel gydag wyrion)
- ffitrwydd i yrru (gan gynnwys cyflyrau meddygol a meddyginiaeth)
- y cyntaf i gyrraedd (safle digwyddiad)
- cynnal a chadw ceir modern
- addasiadau i geir, gan gynnwys symudedd
- dewisiadau heblaw'r car - parhau'n symudol mewn ffyrdd eraill
- diogelwch personol y modurwr
- cadw o fewn y gyfraith
- arall - nodwch os gwelwch yn dda

16 Oes gennych chi sylwadau eraill i'w gwneud am y cwrs Gloywi i Yrwy'r Hŷn, neu faterion sy'n effeithio ar yrwy'r hŷn?

Perfformiad y Cyngor

Gofynnir y cwestiynau canlynol yn achlysurol, er mwyn i'r Cyngor fedru deall sut mae barn yn newid dros amser.

17 I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am y Cyngor?

	cytuno'n bendant	tueddu i gytuno	ddim yn cytuno nac yn anghytuno	tueddu i anghytuno	anghytuno 'n bendant	ddim yn gwybod
mae'n cynnig gwerth da am yr arian	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
mae'n hawdd mynd ato ac yn gyfeillgar	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
at ei gilydd, mae'n darparu gwasanaethau o ansawdd da	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
mae'n dda am ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
mae'n llwyddo i ofalu'n dda am bobl leol	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
mae'n rhy bell i ffwrdd ac amhersonol	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

18 O gymryd popeth i ystyried, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, at ei gilydd?

- bodlon iawn
- gweddol fodlon
- ddim yn fodlon nac yn anfodlon
- gweddol anfodlon
- anfodlon iawn
- dim barn

Diwygio Lles

Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyflwyno newidiadau i'r system fudd-daliadau, yn sgil cred nad yw'r system gyfredol yn ddigon o gymhelliant i bobl gychwyn mewn swyddi neu gynyddu eu horiau. Mae cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn dal yn un o'r nodau a bennir ar gyfer y system ddiwygiedig. Ymhlith y newidiadau mae:

Credyd Cynhwysol - sy'n cyfuno nifer o fudd-daliadau oedran gwaith

Taliadau Annibyniaeth Personol - a fydd yn graddol ddisodli'r Lwfans Byw i'r Anabl

Trosglwyddo derbynyddion budd-dal analluedd yn raddol i'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Ymrwymiad Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith - sy'n cwmpasu disgwyliadau hawlwy'r

'Cap ar fudd-daliadau'

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: <https://www.gov.uk/government/policies/simplifying-the-welfare-system-and-making-sure-work-pays>

19 Ydych chi'n meddwl y bydd diwygio lles yn effeithio arnoch chi?

- ydw (ewch i gwestiwn 20)
- nac ydw (ewch i gwestiwn 21)
- ansicr (ewch i gwestiwn 21)

20 Os ydych, ym mha ffyrdd?

21 Petai angen yn codi, fydddech chi'n gwybod ble i gael cyngor neu gymorth ynghylch diwygio lles?

- byddwn (ewch i gwestiwn 22)
- na fyddwn (ewch i gwestiwn 23)

22 Os byddwn, o ble bydddech chi'n cael yr wybodaeth neu gyngor.

23 Beth arall gallem ni ei wneud i helpu a chefnogi pobl yn Sir Gaerfyrddin y mae diwygio lles yn effeithio arny'n nhw?

Gwasanaethau Etholiadol

24 Ydych chi'n bwriadu pleidleisio yn Etholiadau Ewrop, a gynhelir ar 22ain Mai 2014?

- ydw
- nac ydw

Os nad ydych, dywedwch wrthym ni pam, os gwelwch yn dda.

25 Adeg etholiadau, mae rhai pobl yn dewis defnyddio pleidlais bost, tra bod eraill yn mynd i orsaf bleidleisio. Ydych chi'n meddwl bod pobl sydd wedi cofrestru ar gyfer pleidlais bost yn fwy tebygol o bleidleisio?

- ydw
- nac ydw

26 Ydych chi'n gwybod ble mae eich gorsaf bleidleisio leol?

ydw

nac ydw (ewch i gwestiwn 28)

27 Os ydych, ydych chi'n fodlon ar ei lleoliad?

ydw

nac ydw

Os nad ydych, nodwch leoliad yr orsaf bleidleisio a sut gellid ei wella.

28 Oeddech chi'n gwybod eich bod chi'n gallu pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio hyd yn oed os nad oes gennych chi eich cerdyn pleidleisio?

oeddwn

nac oeddwn

29 Mae 'Hysbysiadau Statudol' yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am etholiadau sydd i'w cynnal. Oeddech chi'n ymwybodol bod Hysbysiadau Statudol sy'n berthnasol i bob etholiad yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor?

oeddwn

nac oeddwn

Diogelwch Cymunedol

Rydym ni'n byw yn y rhanbarth/yr ardal heddlu sydd â'r lefel isaf o droseddu yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae gwybodaeth gymharol yr ydym wedi'i derbyn yn dangos bod teimpladau dinasyddion o ddiogelwch wedi lleihau rhywfaint. Rydym yn gofyn y cwestiynau canlynol er mwyn dod i ddeall beth allai ddylanwadu ar ganfyddiadau o ddiogelwch.

30 Yn eich barn chi, p'un o'r canlynol sy'n effeithio fwyaf ar ganfyddiadau pobl o ddiogelwch yn eu hardal YN YSTOD Y DYDD? [Ticiwch hyd at 3].

eu hoed

eu rhywedd

eu hanabledd

eu hethnigrwydd

lleoliad/ble maen nhw'n byw

ymddygaid stwrlyd

eu hyder yng ngallu asiantaethau i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

amlygrwydd heddwesion neu Swyddogion Cymorth Cymunedol (PCSO)

y cyfryngau

arall - nodwch os gwelwch yn dda

31 Yn eich barn chi, p'un o'r canlynol sy'n effeithio fwyaf ar ganfyddiadau pobl o ddiogelwch yn eu hardal AR ÔL IDDI DYWYLLU? [Ticiwch hyd at 3].

eu hoed

eu rhywedd

eu hanabledd

eu hethnigrwydd

lleoliad/ble maen nhw'n byw

ymddygaid stwrlyd

eu hyder yng ngallu asiantaethau i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

amlygrwydd heddwesion neu Swyddogion Cymorth Cymunedol (PCSO)

y cyfryngau

arall - nodwch os gwelwch yn dda

Gwaith Pwyllgorau Craffu

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin bum pwyllgor craffu, a'u prif gyfrifoldebau yw ystyried perfformiad; sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn cael ei alw i gyfrif yn gyhoeddus; sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd tryloyw a diogelu atebolrwydd democrataidd; a chwarae rhan allweddol yn y broses o ddatblygu, monitro ac adolygu polisïau'r Cyngor.

Yn ogystal â chwrdd yn rheolaidd, mae pwyllgorau craffu'n ymchwilio i faterion pwysig. Ymhlith yr adolygiadau diweddar mae: polisi gorfodi cynllunio; darpariaeth clybiau ieuencid; gwasanaethau camddefnyddio sylweddau; effeithiau diwygio lles; a gwasanaethau iechyd meddwl a gofal cymdeithasol i bobl hŷn.

Byddem yn croesawu eich awgrymiadau ar gyfer unrhyw bynciau neu faterion - sy'n ymwneud â gwella gwasanaethau - y gallai'r pwyllgorau eu hystyried yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

Y Pwyllgor Craffu Cymunedol sy'n gyfrifol am fonitro'r gwasanaethau/materion canlynol:

tai - sector cymdeithasol a phreifat; polisi cynllunio; adfywio cymunedol; datblygu economaidd; rhaglenni Ewropeaidd a rhai a ariannir yn allanol; llyfrgelloedd; y celfyddydau; amgueddfeydd ac archifau; cyfleusterau yng nghefn gwlad; chwaraeon; hamdden ac adloniant.

32 Nodwch eich **dwy** brif flaenoriaeth ar gyfer y Pwyllgor Craffu Cymunedol, gan ddweud pam rydych chi'n meddwl y dylen nhw dderbyn sylw.

prif flaenoriaeth

ail flaenoriaeth

Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant sy'n gyfrifol am fonitro'r gwasanaethau/materion canlynol:

safonau addysg a pherfformiad ysgolion; cynhwysiad ac anghenion dysgu ychwanegol; addysg Gymraeg; moderneiddio ysgolion; dysgu cymunedol i oedolion; gwasanaethau ieuencid; troseddu ieuencid; prydau ysgol; gwasanaethau plant (gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cymorth i deuluoedd).

33 Nodwch eich **dwy** brif flaenoriaeth ar gyfer Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant, gan ddweud pam rydych chi'n meddwl y dylen nhw dderbyn sylw.

prif flaenoriaeth

ail flaenoriaeth

Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd sy'n gyfrifol am fonitro'r gwasanaethau/materion canlynol:

gwasanaethau rheng flaen gweladwy (e.e. priffyrdd, gwasanaethau glanhau strydoedd, gwastraff ac ailgylchu, rheoli canol trefi, cynnal a chadw tiroedd, cyfleusterau cyhoeddus, cysgodfannau bysiau a chynnal a chadw meysydd parcio); y cynllun gwastraff rhanbarthol; trafnidiaeth; cynnal a chadw cerbydau; diogelwch ar y ffyrdd; llefydd parcio ar/oddi ar y stryd ac i breswylwyr; cadwraeth; rheoli'r traethlin ac amddiffyn yr arfordir; tir halogedig; diogelu'r cyhoedd (llygredd aer, safonau masnach, rheoli plâu a iechyd amgylcheddol); diogelwch cymunedol; gorfodi amgylcheddol (e.e. sbwriel, baw cŵn); gorfodi cynllunio.

34 Nodwch eich **dwy** brif flaenoriaeth ar gyfer Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd, gan ddweud pam rydych chi'n meddwl y dylen nhw dderbyn sylw.

prif flaenoriaeth

ail flaenoriaeth

Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau sy'n gyfrifol am fonitro'r gwasanaethau/materion canlynol:

materion polisi a pherfformiad ar draws yr awdurdod; craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol; cyllid; eiddo a marchnadoedd; yr iaith Gymraeg; technoleg gwybodaeth; cyfathrebu a gwasanaethau i gwsmeriaid; caffael; cydraddoldebau; datblygu trefniadaeth; adnoddau dynol.

35 Nodwch eich **dwy** brif flaenoriaeth ar gyfer Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau, gan ddweud pam rydych chi'n meddwl y dylen nhw dderbyn sylw.

prif flaenoriaeth

ail flaenoriaeth

Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol a Iechyd sy'n gyfrifol am fonitro'r gwasanaethau/materion canlynol:

gwasanaethau cymdeithasol i bobl hŷn, gan gynnwys safonau maeth; oedolion ag anableddau dysgu; cefnogaeth i ofalwyr; gwasanaethau iechyd meddwl; diogelu oedolion; integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; gwasanaethau dementia.

36 Nodwch eich **dwy** brif flaenoriaeth ar gyfer Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol a Iechyd, gan ddweud pam rydych chi'n meddwl y dylen nhw dderbyn sylw.

prif flaenoriaeth

ail flaenoriaeth

37 Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill o ran pynciau neu faterion - sy'n ymwneud â gwella gwasanaethau - y gallai'r pwyllgorau craffu roi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn sy'n dod?

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, ewch i: www.sirgar.gov.uk/craffu

Diolch o galon am gwblhau'r arolwg hwn.